# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr - Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH<br>10 RHAGFYR 2019<br>am 9.00 o'r gloch | | TUESDAY<br>10 DECEMBER 2019<br>at 9.00 am |
| SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI | | COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd)/Vice-Chair), John Griffith, R G Parry OBE, FRAgS, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Welsh Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.

3 **COFNODION** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019.

4 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2020/21** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD:** | **10 RHAGFYR 2019** |
| **TEITLE YR ADRODDIAD :** | **DATBLYGIAD AELODAU** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **HYFFORDDAI DATBLYGU AD/ RHEOLWR DATBLYGU AD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | **CHERIE DUFFY/MIRIAM WILLIAMS** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **DARPARU DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU** |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r Pwyllgor Safonau â diweddariad ar y cynnydd o ran cyfleoedd datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig ers cyflwyno'r adroddiad ar 25ain Medi 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn mynd i'r afael ag ymholiadau a godwyd yn y cyfarfod.

## 2. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Mae'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn nodi'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig yn 2019/2020. Mae'r cynllun yn ddogfen sy'n datblygu'n rheolaidd ac a adolygir ac a addasir yn rheolaidd er mwyn bodloni anghenion hyfforddiant Aelodau Etholedig. Y bwriad yw datblygu'r Cynllun Datblygu yn chwarterol ac i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn i Swyddogion penodol allu adnabod cyrsiau datblygu addas neu benodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd; yn cynnwys y Pwyllgor Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau a chyrsiau priodol ar gyfer bob aelod cyfetholedig. Yn ychwanegol at hyn, mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn creu taflen chwarterol i'w hanfon at Aelodau Etholedig a fydd yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddiant sydd ar y gweill. Bydd yn cael ei arddangos yn Lolfa'r Aelodau. Gweler enghraifft yn Atodiad 1.

Ers mis Medi mae anghenion dysgu a datblygu ychwanegol wedi'u nodi ac fe'u cynhwyswyd yn y cynllun Hyfforddi a Datblygu (gweler Atodiad 2). Mae rhai o'r cyfleoedd dysgu a datblygu diweddaraf a gynhaliwyd ar gyfer Aelodau yn cynnwys, hyfforddiant diweddaru yn y maes Cynllunio, hyfforddiant ar faterion Diogelu ac ar y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ar gyfer Aelodau nad oeddent wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi hynny o'r blaen, ynghyd â hyfforddiant ar Reoli'r Trysorlys. Trefnwyd sesiynau datblygu pellach hefyd ar

gyfer y cyfnod ar ôl y Nadolig. Mae’r pynciau hyfforddiant wedi eu dewis o ganlyniad i adborth o’r Adolygiadau Datblygiad Personol, mewnbwn gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/Penaethiaid ac Arweinyddion Grŵpiau.

Y bwriad ydi i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd friffio yr Arweinyddion Grŵpiau ar y cynllun hyfforddi yn rheolaidd.

Mae’r tîm Dysgu a Datblygu yn agored i drafod unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gaiff ei adnabod ac i addasu’r Rhaglen Hyfforddiant fel bo’n briodol.

**3. GWERTHUSO’R CWRS**

Fel y cytunwyd yn flaenorol, yn ychwanegol at ddosbarthu ffurflenni gwerthuso cyrsiau ar ddiwedd digwyddiadau hyfforddi, anfonir fersiwn electronig o'r ffurflenni hefyd mewn ymgais i gael cymaint o adborth â phosibl.

Hyd hyn, mae’r nifer sydd wedi dewis yr opsiwn i gwblhau’r ffurflen yn electronig yn isel.

**4. COFNODI PRESENOLDEB**

Atgoffir Aelodau Etholedig yn rheolaidd o'r angen i sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am gofnodi'r manylion ar eu cofnod hyfforddi electronig ar ddechrau / diwedd pob cwrs hyfforddi. Ar ôl eu cwblhau bydd y manylion yn ymddangos ar wefan y Cyngor o dan bob Aelod a enwir. Ailddosbarthwyd manylion y broses gofnodi er gwybodaeth yn ddiweddar.

Yn ogystal, mae gwybodaeth am gyrsiau a gynigir / a fynychwyd / a wrthodwyd ac ati yn cael ei chasglu o fewn y systemau AD.

Yn ddiweddar mynychodd y Rheolwr Datblygu AD gyfarfod Arweinwyr Grŵp i dynnu sylw at ddigwyddiadau hyfforddi a gynlluniwyd ac i adrodd ar bresenoldeb mewn digwyddiadau. O ganlyniad, cytunwyd y byddai cynnal sesiynau “cyfnos” yn opsiwn hefyd lle bynnag y bo modd mewn ymgais i alluogi'r rheini ag ymrwymiadau gwaith eraill i fynychu.

Gwnaed cais i'r Rheolwr Datblygu AD roi manylion i Arweinwyr Grŵp am yr hyfforddiant yr oedd pob un o'u Haelodau priodol wedi'i fynychu ers eu hethol yn 2017.

**5. ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU**

Disgwylir i'r trefniadau mewn perthynas â chwblhau ADP ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fod wedi eu cwblhau erbyn canol mis Mawrth, 2020. Cydlynir hyn gan y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd.

Y nod yw bod anghenion hyfforddi yn cael eu nodi a'u cynnwys yn y Cynllun

Datblygu Aelodau ar gyfer 2020/21 lle bo modd a / neu bod hyfforddiant yn cael ei drefnu i gwrdd ag anghenion unigol.

**Cherie Duffy, Hyfforddai Datblygu AD/**
**Miriam Williams, Rheolwr Datblygu AD**
**Rhagfyr 2019**



# Rhaglen Hyfforddiant i Aelodau Etholedig

Rhestrir isod y Cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu a gynhelir rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2020

## Ymagwedd Genedlaethol tuag at Eiriolaeth Statudol

Nod y sesiwn hon yw deall rôl eiriolydd a'r gwahanol fathau o eiriolaeth. Bydd y cwrs hwn yn darparu mwy o wybodaeth am hanes yr Ymagwedd Genedlaethol a'r egwyddorion cyffredinol.

**Mawrth 2020**

tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES



## Hyfforddiant Trwyddedu

Bydd y sesiwn hyfforddiant hon yn rhoi trosolwg o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac yn canolbwyntio ar faterion trwyddedu perthnasol megis ceisiadau trwyddedu, gwrandawiadau'r is-bwyllgor trwyddedu ac adolygiadau trwydded.

**Dyddiad: I'w gadarnhau**

## Porth E-Ddysgu

Nodwch os gwelwch yn dda fod rhaid i'r holl staff ac Aelodau Etholedig gwblhau'r modiwlau E-Ddysgu isod. Cliciwch ar yr eicon isod i gael mynediad i'r porth E-ddysgu:















| **RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2018/19**<br>**(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Richard Bason | **Tachwedd 2019** |
| Materion Diogelu 'Mop up' | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd) | **14eg Tachwedd 2019** |
| Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Pob Aelod Etholedig | Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | **Cyflwyniad gan Dafydd Bulman a Rachel Williams.**<br>**Dyddiad: i'w benderfynu** |
| Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad: i'w benderfynu** |
| "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)". | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy ac E-Ddysgu | **25ain Chwefror 2019**<br>**16eg Hydref 2019 ('mop up')** |
| Cyflwyniad i Gydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Gweithdy | **28ain Mawrth 2019**<br>**'Mop up' 2019/2020** |
| Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion | Pob Aelod Etholedig | E-ddysgu | **Parhaus** |
| Dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol – hyfforddiant gweithredu am ddim | Pob Aelod Etholedig | Natalie Brimble<br>TrosGynnal Plant<br>North Wales Advocacy | **5ed Mawrth 2020** |
| CLILC – Rhaglen Arweinyddiaeth | Aelodau Etholedig Enwebedig | Gweithdai Rhanbarthol | **Medi – Tachwedd 2019** |
| Trwyddedu - Diweddariad | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad: i'w benderfynu** |
| Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein | Pob Aelod Etholedig | Catrin Love | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cynllunio<br>• Materion Llifogydd<br>• Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion Mewnol | **16eg Hydref 2019**<br>**25ain Tachwedd 2019** |
| Delio â Materion Heriol | Pob Aelod Etholedig | David Jones - ACAS | **26th September 2019** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithredu'r Cyfansoddiad | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Arweinyddiaeth Gymunedol a Nodi Grantiau | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cadeirio Cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig | Ar gael ar y porth Learning@Wales | **Parhaus** |
| Gweithio Unigol | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad: I'w benderfynu** |

**SGILLIAU TGCH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defnyddio iPads | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | Parhaus |
| General ICT Skills | Pob Aelod Etholedig – Fel angen | Mewnol | Parhaus |

**MODIWLAU E-DDYSGU**

**Mae gan y Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at y system E-ddysgu. Gweler isod fanylion am y meysydd pwnc cyfredol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law. Gellir bellach weld y cyrsiau a nodir gyda (i) isod drwy iPad.**

| **Datblygiad Aelodau** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|---|
| - Moesau a Safonau (i)<br>- Y Cynghorydd Ward Effeithiol (i)<br>- Sgiliau Siarad Cyhoeddus (i)<br>- Cadeirio Cyfarfodydd (i)<br>- Rhianta Corfforaethol (i)<br>- Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol (i)<br>- Cyflwyniad I Graffu (i) | - Croeso Cymraeg Gwaith (i)<br>- Croeso'n ôl! Cymraeg Gwaith (i) | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel (i)<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch (i)<br>- Glendid Bwyd (i) |
| **Llesiant** | **Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol **(M)**<br>- Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (i)<br>- Gwybodaeth Iechyd (i)<br>- Ymwybyddiaeth Straen (i)<br>- Cadernid Personol (i)<br>- Atal (i) **(M)**<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (i)<br>- Cynllunio Cyn Ymddeol (i)<br>- Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol (i)<br>- Caethwasiaeth Fodern (i) **(M)** | - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (i) **(M)**<br>- Ysgrifennu Effeithiol (i)<br>- Rheoli Eich Hun a'ch Amser (i)<br>- Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol (i)<br>- Rhoi a Derbyn Adborth (i)<br>- Sgiliau Cyfarfod (i)<br>- Sgiliau Cyflwyno (i)<br>- Deallusrwydd Emosiynol (i)<br>- Hunan Ddatblygiad (i)<br>- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol (i) | - Ymwybyddiaeth Seibr **(M)** |

**(M) = Mandadol**

**Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.**

**Noder bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Eric Wyn Jones, Vaughan Hughes, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (MW)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Dylan Rees |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn yn gywir:-

- 25 Mawrth 2019
- 2 Mai 2019 (Arbennig)
- 14 Mai 2019

**3. COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU - AROLWG ETHOLIADOL 2019 – YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad ynghylch yr uchod gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael cais i baratoi cynigion mewn ymateb i'r uchod. Sefydlwyd panel trawsbleidiol yn cynnwys 8 o Aelodau i ddatblygu cynigion a gwneud argymhellion. Cyfarfu'r panel bedair gwaith rhwng mis Gorffennaf a Medi 2019 i ddatblygu cynigion.

Rhoddodd y Comisiwn gyflwyniad i Aelodau ym mis Mehefin 2019 ar y broses o gynnal yr arolwg, cyfraniad y Cyngor i'r gwaith o lunio'r cynigion, a'r amserlen.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod gofyn i randdeiliaid gyflwyno eu hargymhellion cychwynnol i'r Comisiwn erbyn 10 Hydref 2019.

Byddai Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir yn cael ei gynnal ar 7 Hydref 2019, i gymeradwyo'r argymhellion. Nododd hefyd y byddai'r Comisiwn, ar ôl derbyn yr argymhellion cychwynnol, yn datblygu a chyhoeddi ei gynigion drafft yn ystod Gwanwyn 2020, ac y byddai'r argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod Gaeaf 2020, yn dilyn cyfnod ymgynghori. Bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu ar draws Cymru mewn pryd ar gyfer etholiadau lleol 2022.

Mae methodoleg y Comisiwn yn argymell Awdurdod o 33 Aelod ar sail 1 Aelod i 1,549 o etholwyr. Nodwyd bod y panel wedi dilyn meini prawf y Comisiwn; adolygu nifer yr Aelodau, y wardiau a'u ffiniau; adolygu nifer yr Aelodau ym mhob ward ac enwau'r wardiau. Daeth y panel i'r casgliad bod achos teilwng dros gynyddu nifer yr Aelodau a datblygwyd cynigion sy'n argymell cynyddu nifer yr Aelodau i 35, o fewn 14 o adrannau etholiadol.

Cynigiodd y Cadeirydd bod enw'r ward 'Parc a'r Mynydd' yn cael ei newid i 'Porth a'r Mynydd'. Awgrymwyd bod y tri aelod lleol yn ystyried y mater ac yn ei drafod ymhellach/gwneud argymhellion i'r cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir ar 7 Hydref 2019.

**PENDERFYNWYD argymell bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-**

- **Ystyried cynigion y Panel yn Atodiad 1.**
- **Yn amodol ar unrhyw sylwadau pellach, argymell i'r Cyngor Sir bod y cynigion yn cael eu derbyn fel ymateb cychwynnol y Cyngor Sir.**
- **Nodi y bydd angen i'r Pwyllgor hwn ystyried cynigion drafft y Comisiwn yn ystod Gwanwyn 2020, a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir.**

## 4. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – diweddariad o adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 17 Medi 2019.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD fod y Cynllun Datblygu yn ddogfen sy'n esblygu ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i haddasu i gwrdd ag anghenion hyfforddi Aelodau, yn dilyn derbyn mewnbwn gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Arweinwyr Grŵp, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac asiantaethau allanol eraill. Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn i'r Cynllun Datblygu gael ei gylchredeg i'r UDA a swyddogion perthnasol bob chwarter, er mwyn codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd hyfforddi i Aelodau ac aelodau cyfetholedig.

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi mynegi pryder bod lefelau presenoldeb yn wael mewn rhai sesiynau hyfforddi, gan ofyn am fwy o wybodaeth am bresenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant. Roedd y Pwyllgor Safonau'n teimlo bod angen atgoffa Arweinwyr Grwpiau i annog eu Haelodau i fynychu hyfforddiant.

Amlygwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y trafodaethau:-

• Mae AD wedi llunio Rhaglen Hyfforddi Aelodau Etholedig ac mae copi ohoni i'w gweld yn lolfa'r Aelodau.
• Ychydig o ddefnydd a wnaed o ffurflenni arfarnu cyrsiau electronig, er bod Aelodau'n cael eu hannog i gwblhau ffurflenni ar-lein.
• Anogir Aelodau i gofnodi a chyhoeddi manylion ar-lein am yr hyfforddiant/ cyrsiau y maent wedi bod arnynt neu wedi penderfynu peidio mynd arnynt.
• Mewn perthynas ag E-Ddysgu, bu datblygiadau mewn perthynas â Llwyfan E-Ddysgu y GIG, fydd yn golygu bod y system yn haws i'w defnyddio. Bydd mynediad at fodiwlau E-Ddysgu gan ddefnyddio I-pad yn gwella hefyd.
• Mae TGCh wedi llunio llawlyfr i Aelodau, sydd ar gael ar MonITor. Trefnwyd sesiynau galw i mewn i gynorthwyo Aelodau gydag unrhyw broblemau TGCh.
• Gellir cael mynediad at y cyflwyniad Powerpoint ar GDPR a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2019 drwy MonITor. Trefnwyd sesiynau hyfforddi mandadol ychwanegol ar gyfer yr Hydref, a bydd aelodau o'r Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig yn cael eu gwahodd iddynt.
• Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – trefnwyd sesiynau hyfforddi mandadol fydd yn cael eu cynnal yn ystod yr Hydref, a bydd aelodau o'r Pwyllgor Safonau ac aelodau cyfetholedig yn cael eu gwahodd hefyd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi a derbyn y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau.**
- **Rhannu copi o'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bob chwarter.**
- **Gofyn i Arweinwyr Grwpiau atgoffa Aelodau o'r angen i fynychu sesiynau hyfforddi mandadol a sesiynau hyfforddi eraill.**

## 5. MATERION YN YMWNEUD AG AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar nifer o faterion yn ymwneud ag Aelodau. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar 17 Medi 2019.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod 28 o Aelodau wedi cwblhau a chyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2018/19 ar-lein erbyn hyn. Dywedodd nad oedd dau Aelod wedi cyflwyno eu Hadroddiadau Blynyddol am y cyfnod, a bod Arweinydd y Grŵp wedi cael ei hysbysu.

Mewn perthynas â threfniadau ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor hwn gyda hyn.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y Cyngor Sir wedi derbyn Siarter Cynorthwyo a Datblygu Aelodau Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac fe'i cyflwynwyd yn swyddogol i'r Cyngor ym mis Gorffennaf am gyfnod o dair blynedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd y manylir arno yn yr adroddiad.**

## 6. RHAGLEN WAITH 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ar swyddogaeth y Pwyllgor mewn perthynas ag adolygu'r ddarpariaeth yn y Cyngor o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaeth democrataidd.

Wrth ddatblygu'r Rhaglen Waith ar gyfer 2019/20, argymhellir y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:-

- Y Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau, gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Ymgynghoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys trefniadau etholiadol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.55 pm

**Y CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **10 Rhagfyr 2019** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2020/21** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad ar gynigion drafft y Panel ar gyfer 2020/21** |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel ar gyfer 2020/21 wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, sy'n cau ar 10 Rhagfyr 2019. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2020.

Mae'r Arweinyddion Grwpiau wedi cael gwybod am y newidiadau arfaethedig sy'n effeithio ar yr Awdurdod hwn, fel yr amlinellir isod:

## 2.0 Cyflog Sylfaenol

Bydd y cyflog sylfaenol yn 2020/21 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn **£14,218** – cynnydd o £350 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 2.5%.

Bydd y cyflog hwn yn cael ei dalu gan bob prif awdurdod yng Nghymru o 1 Ebrill 2020 i bob un o'i aelodau etholedig oni fydd unrhyw Aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i dderbyn swm is.

## 3.0 Uwch Gyflogau

### 3.1 Nifer yr uwch gyflogau

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy yn parhau, sef cyfanswm o 16 i Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

**3.2 Taliadau i aelodau'r Pwyllgor Gwaith**

Ni fydd unrhyw gynnydd ychwanegol yn cael ei dalu i aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn 2020. Fe gafodd yr aelodau yma godiad yn yr adroddiad blynyddol y llynedd a bydd deilyddion uwch gyflogau'n derbyn y cynnydd i'r cyflog sylfaenol yn unig.

**3.3 Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol mwyaf**

Dim cynnydd i'r uwch gyflog ond mae'r cyfanswm a delir yn adlewyrchu'r cynnydd o £350 i'r cyflog sylfaenol.

Atgoffir cynghorau nad oes rhaid iddynt dalu cadeiryddion pwyllgorau. Mater i bob cyngor yw penderfynu pa gadeiryddion pwyllgorau, os o gwbl, sy'n cael eu cydnabod yn ariannol. Mae hyn yn caniatáu cynghorau i ystyried gwahanol lefelau cyfrifoldeb.

**3.4 Bandiau Uwch Gyflog**

| **Uwch Gyflogau 2020/21 (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£44,450**<br>**£31,450** |
| **Band 2** | Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith | **£27,450** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | **£22,918** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | **£22,918** |
| **Band 5** | Arweinydd gŵp gwrthbleidiol arall | **£17,918** |

**3.5 Cyflogau Dinesig**

Roedd y Panel yn flaenorol wedi caniatáu cynghorau i amrywio cyflogau penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig a hynny er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau penodol sydd ynghlwm â'r rôl. Fodd bynnag, mae cynghorau wedi dweud yn gadarn wrth y Panel nad yw aelodau etholedig yn dymuno gwneud unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn i'r cynghorau eu hunain ddewis. Cafodd pob dewis o'r fath eu dileu yn 2019. Mae'r Panel wedi penderfynu ei bod yn rhaid talu cyflog:

**£22,918 (**Band 3) i bennaeth dinesig (os yw'n cael ei d/thalu) a

**£17,918** (Band 5) i ddirprwy bennaeth dinesig (os yw'n cael ei d/thalu).

Mae'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys yn y cap.

## 4.0 Penderfyniadau sydd wedi'u diweddaru

**4.1** Mae **Penderfyniad 4 –** Taliadau i Aelodau Llywyddol wedi ei ddiweddaru.

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi cynghorau i benodi Aelod llywyddol sy'n gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y cyngor cyfan. Lle penodir un, bydd gan y pennaeth dinesig llai o gyfrifoldebau o ganlyniad i hynny.

Atgoffir cynghorau nad oes rhaid iddynt dalu Aelod llywyddol sy'n cael ei benodi. Os bydd yn cael ei dalu, bydd y swydd yn cyfrif tuag at y cap, ac yn derbyn uwch gyflog Band 3 o £22,918.

Ni fydd swydd Dirprwy Aelod Llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol.

**4.2** Mae **Penerfyniad 7 – Awdurdod Parc Cenedlaethol / Awdurdod Tân ac Achub** – wedi ei ddiweddaru. Amlinellir y geiriad ychwanegol isod mewn print bras:

*Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo.* ***Mae ganddynt hawl o hyd i hawlio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliad o gostau gofal.***

## 5.0 Gweithredu Penderfyniadau'r Panel

Mae'r Panel yn cyfeirio at un mater sydd wedi bod yn bwynt trafod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - camau'r cynghorau o ran yr adroddiadau y maent yn eu derbyn gan y Panel. Mae'r adroddiad drafft yn dweud:

"*Pan gyhoeddir adroddiad blynyddol y Panel, rhaid i brif gynghorau gydymffurfio â'r gofynion statudol a gweithredu'r holl benderfyniadau perthnasol. Rhaid i'r swyddog priodol yn y cyngor roi camau ar waith er mwyn i bob aelod cymwys o'r cyngor gael taliadau fel y'u pennwyd gan y Panel. Ar hyn o bryd nid oes opsiynau ar gael o ran lefelau cydnabyddiaeth prif gynghorau sy'n gofyn am benderfyniad gan y cyngor llawn. Ni ellir amrywio lefelau'r taliadau y mae gan Aelodau hawl iddynt drwy bleidlais prif gyngor.*

*Dim ond aelod unigol all gyfathrebu'n ysgrifenedig â'r swyddog priodol os yw'n dymuno,* ***fel unigolyn****, gwrthod y cyfan neu ran o'r taliad y mae ganddo hawl i'w gael.*

*Nid yw'r ffordd y caiff adroddiad blynyddol y Panel ei dderbyn yn ffurfiol neu ei nodi gan y cyngor llawn yn fater sydd o fewn cylch gwaith statudol y Panel. Gall cyfansoddiadau unigol neu reolau sefydlog cynghorau amrywio o ran y materion y gellir eu cyflwyno i'r cyngor llawn i'w hystyried. Lle pob cyngor yw penderfynu sut y mae am reoli'r broses o dderbyn adroddiad y Panel, gan ofyn am gyngor eu swyddogion cyfreithiol lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, dylai pob aelod o'r cyngor a'r swyddogion ofalu na chaiff datganiadau camarweiniol eu gwneud na'u hadrodd yn y cyfryngau, yn enwedig awgrym bod Cyngor wedi penderfynu lleihau neu amrywio taliadau. Nid oes unrhyw bwerau sy'n caniatáu i brif gyngor gymryd camau o'r fath."*

Mae'r rhan berthnasol o Gyfansoddiad y Cyngor wedi'i osod allan isod:

***"6.1 Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau***

*6.1.1 Manylir ar yr amrediad a lefelau lwfansau yn y Rhestr sydd ynghlwm wrth y cynllun hwn a bydd yn cael ei diweddaru'n flynyddol neu ei diwygio yn sgil newidiadau eraill.*

*6.1.2 Bydd raid i'r Cyngor llawn gymeradwyo unrhyw newidiadau eraill i'r Rhestr neu i'r cynllun hwn.*

*6.1.3 Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 fydd yn talu'r lwfansau yn unol â darpariaethau'r cynllun hwn.*

*6.1.4 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymdrin ag unrhyw newidiadau fydd yn cael effaith ar yr hawl i gyflog sylfaenol, uwch gyflog neu gyflog dinesig."*

Mae'r 'Rhestr Flynyddol Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn dilyn derbyn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol' hefyd ar hyn o bryd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Polisi'r Cyngor o dan rhan 3.2.2.1.1 - rhai y mae'n rhaid i'r Cyngor eu mabwysiadu yn ôl y gyfraith.

## 6.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y penderfyniadau drafft o fewn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20 ac os yw'r Pwyllgor yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**2/12/19**

Papur cefndirol:- Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020/21: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/panel-annibynnol-cymru-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2020-2021_0.pdf